

# Cyfnewidfa Cydraddoldeb

## Adroddiad cynhadledd

Mehefin 2014

## Cydraddoldeb mewn Tirwedd sy'n Newid



Ann Beynon - Cyflwyniad i adroddiad y gynhadledd .....	3
Kate Bennett - Gosod y llwyfan .....	4
Jane Davidson - Y tirwedd sy'n newid .....	6
Martin Henderson ac Abbey Ashman – Creu a chynnal newid.....	8
Gweithdai – Cyfle yn sgil newid.....	10
Yr Arglwydd Chris Holmes - Meddwl ar Raddfa Fawr .....	12
Sesiwn drafod – Cyflawni deilliannau gwell.....	13
Y camau nesaf i'r rhwydwaith.....	14
Trydar o'r gynhadledd #EHRCEE2014.....	15
Am y Comisiwn.....	16





# Ann Beynon - Cyflwyniad i adroddiad y gynhadledd

Canolbwyntiodd y gynhadledd eleni ar y dirwedd sy'n newid yng Nghymru. Mae etholiadau, trafodaethau ynglŷn â dyfodol datganoli a newidiadau mawr eraill ar y gorwel. Gallai'r newidiadau hyn gynnig cyfleoedd gwahanol a gwell i ni i hybu cydraddoldeb a hawliau dynol, felly, dewisom hyn fel thema i'n diwrnod yng nghwmni ein gilydd.

Roedd y gynhadledd yn gyfle i ni gael rhai sylwadau a syniadau newydd gan areithwyr ynglŷn â'r cyfleoedd presennol. Clywsom gan bobl sydd wedi cyflawni newidiadau pellgyrhaeddol a gweithiom gyda'n gilydd ar y ffyrdd gorau i wneud cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

Gwyliodd cynadleddwyr gyfweiliad gyda'r Arglwydd Chris Holmes ac anogwyd hwy i 'Feddwl ar Raddfa Fawr!'. Bu trafod ar y posibilrwydd o gyflawni nodau a oedd yn gynt yn cael eu hystyried yn amhosibl eu gwireddu. Dyma [ddolen i'r ffilm](#) ac anogaf i chi i'w gwyllo - byddai'n brofiad werth chweil i chi!

Wrth fyfyrion ar y diwrnod, siaradodd cynadleddwyr ynglŷn â chael eu cymell a'u hail-hoeni i daclo'r problemau pwysfawr. Amlygwyd yn yr adbordd pa mor werthfawr oedd mewnbwn y siaradwyr a pha mor fanteisiol oedd i gynadleddwyr rannu gwybodaeth, profiadau a chymorth ymysg ei gilydd. Soniodd aelodau wrthym am gael eu hysbrydoli a'u hoeni i ddilyn amcanion yn fwy eiddgar.

Rydym yn gobeithio bydd yr adroddiad hwn a ffilm Chris yn eich egnioli a'ch ysbrydoli i ymuno â ni fel y gallwn, gyda'n gilydd, 'Feddwl ar Raddfa Fawr' yn y flwyddyn i ddod!

**Ann Beynon**  
**Comisiynydd Cymru**



# Kate Bennett - Gosod y llwyfan

Gosododd Kate y llwyfan drwy siarad am y newidiadau cyfredol i'r dirwedd yng Nghymru. Atgoffodd gynadledwyr ein bod ni, fel aelodau'r rhwydwaith, am newid y dirwedd hefyd. Mae llai o gydraddoldeb nag mae llawer o bobl yn ei feddwl.

Mae rhai menywod beichiog yn dioddef gwahaniaethu yn y gwaith ac mae rhai pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu haflonyddu ar y stryd. Mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tloidi pan fo dynion, fel y dengys Pwy sy'n rhedeg Cymru 2014, yn fwy tebygol o wneud y penderfyniadau.

Yn y gynhadledd y llynedd roeddem yn meddwl bod dyletswydd gymdeithasol – economaidd ar y gweill ond mae hynny'n annhebygol bellach yn y tymor byr. Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) sy'n cyflwyno'r cyfleoedd bellach i gyflawni newid arwyddocaol.

Bu bron i bob aelod o'r Rhwydwaith Gyfnewidfa Cydraddoldeb gyfrannu at ein hymchwil PSED neu fonitro arno, gan ddarparu tystiolaeth o sut mae'r ddyletswydd yn hybu cydraddoldeb. Yn glir, mae Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn chwarae rhan gynyddol bwysig. Gallwn ddweud yn swyddogol fod y PSED yn gatalydd er newid!

Gwnaeth Kate y pwynt fod llawer o faterion cydraddoldeb, megis trais yn erbyn menywod, troseddau casineb a diffyg cyngor cyfreithiol i gael mynediad at gyfiawnder, yn faterion hawliau dynol hefyd. Dylem helpu i adeiladu dealltwriaeth o hyn drwy wneud y cysylltiadau rhwng Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Caiff trafodaethau eu cynnal gydag aelodau yn ystod yr Hydref ynglŷn â newid rhwydwaith y gyfnewidfa cydraddoldeb, i'r Rhwydwaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Dichon y gallai hyn fod yn newid pwysig i'r dirwedd?



Siaradodd Kate am y dirwedd wleidyddol sy'n newid cyn y refferendwm yn yr Alban, yr Etholiad Cyffredinol, Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol yn 2017.

Sut allwn ni warchod yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni a gyrru ymlaen i gyflawni rhagor? Beth fydd goblygiadau cynyddu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus - er enghraifft i ofalu am bobl hŷn? Sut allwn ni fel eiriolwyr cydraddoldeb a hawliau dynol barhau i gyflenwi ein nodau mewn cyfnod o'r fath newid?

Nid yw'r atebion gennym eto. Mae rhai syniadau defnyddiol gennym a chyfle yn y gynhadledd i weithio gyda'n gilydd. Mae'n gyfnod anodd i lawer ohonom ac efallai dyma'r amser iawn i ymgymryd â'r problemau hynny a oedd yn ymddangos yn gynt yn rhy fawr neu'n amhosibl!



# Jane Davidson - Y dirwedd sy'n newid

Mae Jane Davidson yn Gyfarwyddwr sefydliad cynaladwyedd newydd , INSPIRE (Institute for Sustainability Practice, Innovation and Resource Effectiveness) ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'n gyn Gweinidog i Lywodraeth Cymru ac aelod o'r Comisiwn ar Ddatganoli.

Atgoffodd Jane y cynadleddwyr fod Trevor Phillips, cyn Cadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, wedi gosod dau gwestiwn diffiniol i bawb:

- Sut rydym yn byw gyda'r blaned?
- Sut rydym yn byw gyda'n gilydd?

Teimlai Jane fod y cwestiynau hyn yn dal yn berthnasol ac yn tanategu'r gwerthoedd y dylai arwain unigolion a sefydliadau fel ei gilydd. Canolbwyntiodd ar bwysigrwydd tegwch a pharch fel gwerthoedd a sut y daw teimlad aruthrol o gryfder o gredu eich bod yn gwneud rhywbeth sy'n gwbl iawn.

I Jane, mae cynaladwyedd a chydraddoldeb yn gysylltiedig â'i gilydd, ac eglurodd y bydd newid yn yr hinsawdd yn gwneud tloedi yn barhaus mewn cymdeithas, oni fydd gweithredu. Mae Cymru mewn man gwahanol i weddill y DU oherwydd y ddyletswydd unigryw ar Lywodraeth Cymru i ystyried datblygu cynaliadwy. Mae pobl gan mwyaf yn meddwl bod datblygu cynaliadwy yn ymwneud â'r amgylchedd ond i Jane, mae'n ymwneud â dyfodol pobl yn byw mewn tloedi ledled y byd.

Yn hytrach nag ymateb i bwysau presennol, yr unig ffordd o ddelio ag achosion sylfaenol y problemau rydym yn eu hwynebu yw bod yn fwy cydgysylltiedig. Mae hyn yn golygu integreiddio a chydbwysu'r angen am economi cryf, diwylliant, cymdeithas ac amgylchedd. Mae'n golygu newid agweddau ac ymddygiadau.

Mae'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn un ffordd o ddelio ag achosion tloedi ac anghydraddoldeb yng Nghymru. Ffocws y Bil hwn yw'r math o Gymru





yr ydym ei heisiau i genedlaethau yn y dyfodol. Mae INSPIRE yn y Drindod Dewi Sant yn gweithio i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr yn fwy hyddysg ynglŷn â'r materion hyn. Mae prifysgolion yn hyfforddi, addysgu ac yn ysbrydoli arweinyddion y dyfodol. Teimlai Jane mai edau euraidd yr agenda cynaladwyedd a chydaddoldeb yw ymgysylltu â phobl iau.

Wrth ymateb i'r dirwedd sy'n newid, awgrymodd Jane y dylai eiriolwyr cydraddoldeb a hawliau dynol adeiladu ar y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes, megis Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Gallai hyn sicrhau deilliannau trawiadol i bobl.

Mae'r adroddiad gan y Comisiwn ar Ddatganoli yn cefnogi cyflwyno dyletswydd gymdeithasol-economaidd yng Nghymru fel ffordd o daclo anghydraddoldebau sydd wedi hen galedlu.

Mae manifestos pleidiau gwleidyddol yn darparu cyfle i gael blaenoriaethau cydraddoldeb a chynaladwyedd ar agendau llywodraeth.

Mae addysg yn ffordd allan o dlodi, a gallai dylanwadu ar y cwricwlwm fod yn ddefnyddiol, ond nid yw addysg wrth ei hunan yn ddigon.

I gloi, anogodd Jane y cynadleddwyr i feddwl am y bobl a'r blaned fel ei gilydd yn eu gwaith. Ni ellir cyflawni cyfiawnder cymdeithasol na chydaddoldeb ond drwy gysylltu'r ddau, ac i bawb gydweithio ar yr agenda ehangach.



# Martin Henderson ac Abbey Ashman – Creu a chynnal newid

Agorodd Martin Henderson o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei anerchiad allweddol ar Greu a Chynnal Newid drwy roi'r newyddion diweddaraf ar ei fenter i atal tanau glaswellt. Disgrifiodd Martin y ffactorau allweddol yn y prosiect fel bod â gweledigaeth, uchelgais a dysgu o gamgymeriadau.

Mewn cynhadledd flaenorol siaradodd Martin am y swm mawr o ddata sy'n cael ei gadw gan y gwasanaeth tân ar danau glaswellt pwrpasol a sut oedd dadansoddi'r data yn darparu cipolwg gwerthfawr parthed eu hatal. Canolbwyntiodd y prosiect cyntaf ar dair ardal benodol ym Mhenybont, Caerffili a Rhondda Cynon Taf.

Edrychodd Martin ar sefydliadau partner, yr Heddlu, y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol a thwristiaeth i helpu'r prosiect i gyflawni ei nodau.

Siaradodd Martin yn y gynhadledd am yr her o ymgymryd â'r prosiect a'i gynnal. Roedd y cynnydd yn arafach na'r disgwyl. Ar waethaf hyn mae'r canlyniadau yn dal yn galonogol.

Eleni, yn ardaloedd y prosiect cyntaf, roedd, dros gyfnod o wyth wythnos gan gynnwys y Pasg, gostyngiad o 80% o ran tanau glaswellt pwrpasol! Pobl ifanc yw ffocws y prosiect. Allwedd llwyddiant y prosiect oedd deall eu safbwynt a chydweithio mewn partneriaeth, ac o ganlyniad, cafodd fwy ei gyflenwi gyda llai o adnoddau.

Cyflwynodd Martin y rhaglen Lift drwy siarad am amddifadedd uchelgais. Mae gan bobl ifanc, gyda hanes teuluol o fod yn ddi-waith a heb brofiad o weithio, nemor ddim ar bapur i'w gynnig i gyflogwyr posibl. Diffyg uchelgais ddaw yn ei sgil.

Cafodd Martin y cyfle i daclo'r amddifadedd uchelgais hwn wrth i Lywodraeth Cymru ddarparu cynllun i gyflwyno 5000 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i bobl ifanc.





Dechreuodd y prosiect yn Orsaf 27 ym Mlaenau Gwent, lle ymunodd Abbey Ashman fel hyfforddai.

Siaradodd Abbey yn angerddol am y profiad cadarnhaol a gafodd y rhaglen Lift ar ei bywyd. Fel y meddylodd 'dyma ni eto' pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru brosiect arall i daclo diweithdra.

Clywodd Martin Henderson rywbeth gwahanol. Fe welodd gyfle i wneud gwahaniaeth, i gynyddu hyder a gobraith ymysg grŵp o bobl ifanc. I addysgu'r grŵp hwnnw am ymddiriedaeth, agweddau positif, gweithio gyda'i gilydd a hunan hyder. Mae'r rhaglen yn parhau i gefnogi hyfforddeion ymhell ar ôl iddynt orffen y cwrs. Mae Abbey yn parhau i gymryd pob cyfle i wella ei bywyd, i gredu yn ei hunan a herio ei hun i wneud yn well.

Soniodd cynadleddwyr am sut y gwnaeth angerdd Martin, ei barodrwydd i gymryd risg ac argyhoeddiad ei wroldeb, eu hysbrydoli. Atgoffodd ffocws dau brosiect Martin y cynadleddwyr mai ymwneud yn gyfan gwbl â phobl wnâi cydraddoldeb ac nid â deddfwriaeth, polisïau neu weithdrefnau'n unig.

Darbwyllodd stori Abbey y cynadleddwyr am ba mor ysbrydoledig ac iachusol oedd clywed am brofiadau personol, ac am fanteision positif menter i daclo anghydraddoldeb. Soniodd Abbey yn rymus am sut y gwnaeth y rhaglen Lift newid ei bywyd.



Cafodd y cynadleddwyr eu hannog i feddwl am sut y gallai'u sefydliadau gymryd cyfleoedd, neu gymryd ymagwedd wahanol i daclo anghydraddoldebau a gwella bywydau.

# Gweithdai – Cyfleoedd drwy newid



Gweithiodd cynadleddwyr gyda'i gilydd mewn gweithdai traws-sector i nodi cyfleoedd o fewn y dirwedd sy'n newid y gallai'u helpu i wireddu'u nodau cydraddoldeb a hawliau dynol.

Nododd aelodau'r rhwydwaith nodau uchelgeisiol a chafodd amryw ohonynt eu rhannu ar draws y pum grŵp gweithdy. Mae'r rhain yn cynnwys :

- Rhoi cydraddoldeb yn greiddiol i wasanaethau cyhoeddus a chael gwared â thlodi
- Gwella'r cysylltau a wnawn rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol i gyflenwi llwybrau newydd er newid
- Newid yr iaith o gydraddoldeb a hawliau dynol i degwch, urddas a pharch
- Ehangu ein trafodaethau i gynulleidfaoedd newydd
- Newid calonnau a meddyliau drwy herio agweddau, ymddygiadau a gwerthoedd
- Adeiladu arweinyddiaeth ddewr
- Nodi arwyr cydraddoldeb

Ar ôl nodi nodau cydraddoldeb a hawliau dynol, bwriodd y cynadleddwyr ymlaen i nodi sut i gyflawni'r nodau.



Roedd y syniadau yn cynnwys:

- Cynyddu gweithio mewn partneriaeth
- Sicrhau bod maniffestos pleidiau gwleidyddol yn ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol a bod ymgeiswyr etholiad yn hyrwyddo cydraddoldeb
- Gwneud y gorau o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Ehangu ymagwedd Asesu Effaith ar Gydraddoldeb i gynnwys hawliau dynol
- Integreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol ym maes hyfforddi athrawon
- Ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd drwy rwydweithiau cymdeithasol gwahanol
- Defnyddio ymagwedd gwahanol Gymru, gan gynnwys y cyfleoedd a gyflwynir gan Goncordat y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru.
- Adeiladu'r cysylltaidau rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol
- Atgyfnerthu rhwydwaith y Gyfnewidfa Cydraddoldeb





# Yr Arglwydd Chris Holmes – Meddwl ar Raddfa Fawr

Mae'r Arglwydd Chris Holmes, Comisiynydd y Comisiwn, Cadeirydd Pwyllgor Anabledd y Comisiwn, Enillydd medal aur mewn Gemau Paralympaidd a Chyfarwyddwr Integreiddio Paralympaidd i Gemau Llundain yn 2012 yn siarad am sut y gellir darganfod cyfleoedd i wneud enillion cydraddoldeb a hawliau dynol mewn cyfnod o her, newid a chorddi.

Mae'n myfyrio ar ei nod o drawsnewid agweddau at bobl anabl, gan ddadlau y byddai bywydau pobl anabl yn gwella pe gellid newid agweddau, gan leihau aflonyddu a hyrwyddo'r cyfleoedd ar gyfer swyddi.

Mae Chris yn siarad am sut y gall newid a chorddi fod yn anghysurus, eu bod yn anorfod ac yn darparu cyfleoedd amhrisiadwy hefyd. Disgrifiodd sut y cyflwynodd y Gemau gyfle unigryw i symud ei agenda yn ei flaen.

Sonia Chris am y ffactorau llwyddiant allweddol a'i helpodd i wireddu ei nod o ddefnyddio'r Gemau i newid agweddau tuag at bobl anabl.

Roedd y rhain yn cynnwys: -

- Bod â gweledigaeth glir a chynllun
- Adeiladu tîm o bobl ymroddedig
- Deall agenda pobl eraill ac ateb y cwestiwn 'ie, beth amdani?'
- Bod â phartneriaid effeithiol
- Trefnu 'eiliadau cyfareddol' i newid agweddau
- Cadw i ganolbwyntio
- Anwybyddu negyddiaeth a beirniadaeth
- Cynnal pwysau

[Gwylwch y ffilm fan hyn](#)



# Sesiwn drafod – Cyflawni deilliannau gwell

Yn dilyn cyfweiliad Meddwl ar Raddfa Fawr Chris Holmes cafwyd trafodaeth fywiog. Gwylodd cynadledwyr y cyfweiliad a gofynnwyd i Ann Beynon, Comisiynydd Cymru'r Comisiwn, Saleem Kidwai, Pwyllgor Cymru'r Comisiwn, ac Adele Baumgardt, Chwaraeon Cymru, i roi eu sylwadau am y ffilm. Siaradodd Adele am rinweddau Chris fel arweinydd. Disgrifiodd ei weledigaeth a'i bwrpas clir a'i ymroddiad cryf i gyflawni'i nod. Ysbrydolodd hyn Adele i fod ag 'uchelgeisiau anrhesymol dros gydraddoldeb'.

Trawyd Ann yn arbennig gan uchelgais Chris i daclo'r materion mawr. Soniodd wrth y cynadledwyr am bedair enghraifft o'i bywyd lle dywedwyd wrthi fod ei nod yn amhosibl ac ni gai fyth ei gyflawni. Y rhain oedd:

- Datganoli a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
- Priodi cyplau o'r un ryw
- Arwyddion ffordd dwyieithog
- Argae Bae Caerdydd.

Teimlai Saleem fod dyfalbarhad, ymroddiad a ffydd Chris y gallai lwyddo yn resipi da i gyflawni'r amhosibl.

Siaradodd y cynadledwyr am eglurder pwrpas Chris a'i benderfyniad a'i allu i ymdopi. Roedd ei bositifrwydd personol a'i agwedd 'gellir ei wneud, byddaf yn ei wneud' wedi canu cloch gyda llawer a oedd wedi'u hysbrydoli i'w haddasu at eu sefydliadau'u hunain. Roedden nhw'n arbennig yn hoffi barn Chris ynglŷn â phwysigrwydd ystyried y byd o safbwyntiau pobl eraill a'r angen i fod yn ddarbwyllol.

Trafododd y cynadledwyr am gynyddu ymwybyddiaeth o fodel cymdeithasol anabled. Soniodd pobl am botensial chwaraeon i ddwyn cymunedau gwahanol at ei gilydd ac i hybu cynhwysiad. Nododd rhai nad oedd deddfwriaeth wrth ei hunan, er ei bod yn bwysig, yn ddigon i sbarduno newidiadau mawr.

Soniodd cynadledwyr sut oedd stori Chris yn dangos bod un person yn gallu gwneud gwahaniaeth, yn enwedig pan all y rheini rhannu eu hangerdd ac ysgogi eraill o'u hamgylch.



# Y Camau Nesaf i'r Rhwydwaith

Nododd cynadleddwyr nifer o gamau i'w cymryd nesaf i atgyfnerthu a chefnogi'u gwaith a'r rhwydwaith yn y flwyddyn i ddod. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Meddwl am y tasgau a ystyriwyd yn flaenorol eu bod yn rhy fawr neu'n amhosibl.** Mae aelodau am weithio gyda'i gilydd i nodi'r camau, adnoddau, mewnbwn y rhwydwaith a phartneriaethau sydd eu hangen i gyflawni eu nodau.
- **Bod yn wrolach ac yn fwy hy wrth ganolbwyntio ar y pethau positif ac anwybyddu beirniadaeth negyddol.** Meithrin hyder ymysg aelodau'r rhwydwaith i arwain yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol. Cefnogi ei gilydd a pheidio â rhoi'r gorau iddi.
- **Gwneud y gorau o'r cyfleoedd a rydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i gyflawni deilliannau positif i bobl.** Defnyddio Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb i nodi effeithiau anghymesur a bod yn fwy effeithiol i gynnwys y trydydd sector.

Bydd digwyddiadau nesaf y Gyfnewidfa Cydraddoldeb yn cael eu cynnal yn yr Hydref a byddan nhw'n adeiladu ar y ddysg a rannwyd o'r gynhadledd.

"Fel bob tro, diolch am ddigwyddiad positif ac ysgogol – mae'n fy ail-egnioli bob tro!"

"Mae'r digwyddiad hwn wedi fy ail-hoeni i barhau i weithio gyda'r egni, brwdfrydedd a'r angerdd sydd eu hangen"

"Digwyddiad penigamp – ysbrydoledig ac ysgogol"

"Diolch am ddarparu amgylchedd ar gyfer trafodaethau ardderchog ac i feddwl yn ddwysach ar gydraddoldeb!"





# Trydar o'r gynhadledd #EHRCEE2014



**WENWales** @WENWales Jun 4

Public Sector Equality Duty has effected positive change, @EHRcWales Director, Kate Bennett tells #EHRCEE2014



**Adele Baumgardt** @AdeleBaumgardt Jun 4

Climate change won't make poverty history but it will make poverty permanent says Jane Davidson #EHRCEE2014



**Lucy Faulkner** @LucyFaulkner7 Jun 4

How do you ensure young people don't have a poverty of ambition? Love the passion from Martin Henderson #ehrcce2014



**Gemma Woolfe** @GemmaWoolfe Jun 4

That awkward moment when you're in a conference and so moved by a presentation that you're close to tears... #EHRCEE2014



**FAB Excellence** @FabExcellence Jun 4

Abby Ashman you are amazing LIFT project at station 27 excellent example to deal with poverty of ambition #ehrcce2014



**James Parkin** @JamesParkin2010 Jun 4

An inspirational talk by @JaneBryngwyn on the values that help drive social justice and the current challenges facing Wales #EHRCEE2014



**NWP Diversity Unit** @NWP Diversity Jun 4

Fascinating and inspiring input from #LordChrisHolmes at to #ehrcce2014 #paralympics "be clear about the vision"

# Am y Comisiwn

Nod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw diogelu, gorfodi a hybu cydraddoldeb a hybu a monitro hawliau dynol.

## Am y rhwydwaith

Ar hyn o bryd, mae gan ein Cyfnewidfa Cydraddoldeb dros 140 o aelodau. Fforwm yw, a'i ddiben yw cyfnewid syniadau a chynghor i gyflogwyr, darparwyr gwasanaeth, hyfforddwyr ac ymgynghorwyr sy'n ymroi i gyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol yn eu gweithleoedd ac wrth gyflenwi gwasanaeth.

Mae gohebiaeth a digwyddiadau rheolaidd yn hysbysu aelodau am y datblygiadau mwyaf diweddar o ran materion cydraddoldeb a hawliau dynol, a darparu cyfle i aelodau i weithio gyda'i gilydd.

Cynhelir digwyddiadau deirgwaith y flwyddyn ac maen nhw'n rhanbarthol; rydym yn trefnu'r un fformat i ogledd Cymru, de Cymru a chanolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r man cyfarfod yn newid bob tro gan fod aelodau'r rhwydwaith yn eu cynnal. Fel arfer, cynhelir ein cynhadledd yng nghanolbarth Cymru ac mae'n gyfle i'r rhwydwaith i gyfarfod â, a chlywed siaradwyr, cymryd rhan mewn gweithdai a chyfnewid gwybodaeth.

## Cysylltu â ni

[wales@equalityhumanrights.com](mailto:wales@equalityhumanrights.com)

[Rhwydwaith y Gyfnewidfa Cydraddoldeb](#)

©Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Gorffennaf 2014